Trosolwg o ganlyniadau Haf 2019 ar gyfer Bagloriaeth Cymru CA4 Cenedlaethol/Sylfaen

Mae Bagloriaeth Cymru CA4 yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau CA4 a chymwysterau ategol eraill.

Nifer y cofrestriadau

Bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau CA4 newydd a Bagloriaeth Cymru CA4 newydd eleni:

	2017	2018	2019
Tystysgrif Her Sgiliau CA4	23,807	26,962	27,347
Bagloriaeth Cymru CA4	24,581	27,782	27,846

Ffynhonnell: CBAC

Tystysgrif Her Sgiliau CA4

Mae Tystysgrif Her Sgiliau CA4 yn cyfateb o ran maint a her i gymhwyster TGAU. Dyfernir graddau A* -C ar gyfer cyflawniad ar Lefel Genedlaethol (Lefel 2) a Llwyddo* a Llwyddo ar Lefel Sylfaen (Lefel 1).

Canlyniadau Tystysgrif Her Sgiliau CA4 2017 - 2019

	2017	2018	2019
A*	1.1	2.0	2.7
A*-A	7.0	10.7	14.0
A*-C	67.7	82.8	83.9
A*-Llwyddo	92.9	98.0	98.5

Ffynhonnell: CBAC

Bagloriaeth Cymru CA4

Dyfernir Bagloriaeth Cymru CA4 ar lefel Sylfaen neu Genedlaethol.

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru CA4 ar lefel Genedlaethol rhaid i fyfyriwr gael gradd C neu uwch yn Nhystysgrif Her Sgiliau CA4, tri TGAU neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol, naill ai Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd TGAU, a TGAU Cymraeg neu Saesneg Iaith.

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru CA4 ar lefel Sylfaen rhaid i fyfyriwr gwblhau Tystysgrif Her Sgiliau CA4, cael tri TGAU neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol, naill ai Mathemateg neu Mathemateg-Rhifedd TGAU, a TGAU Cymraeg neu Saesneg Iaith.

% yn cyflawni Bagloriaeth Cymru CA4 2017 - 2019

	2017	2018	2019
Cenedlaethol	50.1	56.3	52.7
Sylfaen	38.7	37.1	41.5
Cyfanswm	88.8	93.4	94.2

Ffynhonnell: CBAC

Rhagor o wybodaeth

Cyhoeddir canlyniadau Bagloriaeth Cymru llawn gan **CBAC**.